***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, RHAN 5. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 1

## YMGORFFORI SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## RHAN 5

## CYFLOGEION

*Penodi*

22 (1) Caiff SAC gyflogi staff.

(2) Ni all person gael ei benodi yn aelod o staff SAC os yw'r person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei benodi ar unrhyw un o'r seiliau a bennir yn Rhan 6 o'r Atodlen hon.

(3) Bydd person yn peidio â bod yn aelod o staff SAC os yw'r person wedi ei anghymhwyso ar unrhyw un o'r seiliau hynny.

(4) Bydd staff SAC yn cael eu cyflogi ar y telerau hynny y caniateir i SAC eu penderfynu.

(5) Ni chaiff person sy'n gyflogai i SAC ddal unrhyw swydd y caniateir penodi person iddi, argymell person ar ei chyfer neu enwebu person ar ei chyfer gan neu ar ran y Goron, y Cynulliad Cenedlaethol neu Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 22 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)**

**I2** Atod. 1 para. 22 mewn grym ar 1.4.2014 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 3(1)**

*Statws*

23 Nid yw aelod o staff SAC i'w ystyried—

(a) yn was neu'n asiant i'r Goron, neu

(b) yn mwynhau unrhyw statws, imiwnedd na braint sydd gan y Goron.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 1 para. 23 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)**

**I4** Atod. 1 para. 23 mewn grym ar 1.4.2014 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 3(1)**

24 Ond ystyrir bod aelod o staff SAC yn was y Goron at ddibenion Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Atod. 1 para. 24 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)**

**I6** Atod. 1 para. 24 mewn grym ar 1.4.2014 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 3(1)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

| | |
|---|---|
| **I3** | Atod. 1 para. 23 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)** |
| **I4** | Atod. 1 para. 23 mewn grym ar 1.4.2014 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 3(1)** |
| **I5** | Atod. 1 para. 24 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)** |
| **I6** | Atod. 1 para. 24 mewn grym ar 1.4.2014 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 3(1)** |

*Trefniadau talu cydnabyddiaeth*

25 (1) Rhaid i SAC dalu tâl cydnabyddiaeth i gyflogeion fel y darperir ar ei gyfer gan eu telerau penodi, neu o dan y telerau hynny.

(2) Rhaid i SAC dalu i'r Gweinidog dros y Gwasanaeth Sifil, ar yr adegau hynny a benderfynir gan y Gweinidog, daliadau o'r symiau hynny y penderfynir arnynt felly o ran y canlynol—

(a) darparu pensiynau, lwfansau, arian rhodd neu fuddion eraill yn rhinwedd adran 1 o Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 i, neu mewn perthynas ag, unrhyw berson sydd yn gyflogai i SAC neu sydd wedi peidio â bod yn gyflogai iddi, a

(b) y treuliau yr aed iddynt drwy weinyddu'r pensiynau hynny, y lwfansau hynny, y rhoddion ariannol hynny neu'r buddion eraill hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

| | |
|---|---|
| **I7** | Atod. 1 para. 25 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)** |
| **I8** | Atod. 1 para. 25 mewn grym ar 1.4.2014 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 3(1)** |

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, RHAN 5.